

## Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb Hiliol 2006

### Adroddiad i'r Cyngor ar Weithrediad Polisi Cydraddoldeb Hiliol y Brifysgol – Mai 2006

#### 1. Cyd-destun

- (i) Hwn yw'r pedwerydd Adroddiad Cydraddoldeb Hiliol i'w gyflwyno i'r Cyngor yn dilyn mabwysiadu Polisi a Chynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol Prifysgol Cymru, Aberystwyth (PCA) yn 2003. Mae'r adroddiad hwn yn asesu effaith y Polisi a'r Cynllun Gweithredu dros y 12 mis blaenorol, fel rhan o ddyletswyddau PCA o dan **Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000**.
- (ii) Mae'r Adroddiad wedi'i baratoi gan y Rheolwr Adnoddau Dynol (Cyfle Cyfartal) mewn ymgynghoriad ag amrediad o swyddogion PCA a Chadeirydd / aelodau o'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal ac Amrywioldeb. Pan gaiff ei fabwysiadu'n ffurfiol gan y Cyngor ym mis Gorffennaf 2006, caiff yr adroddiad ei gyfieithu i'r Gymraeg a daw'n ddogfen gyhoeddus fydd ar gael ar y wefan Cyfle Cyfartal ac Amrywioldeb, <http://www.aber.ac.uk/en/equal-opps> neu gan y Rheolwr Adnoddau Dynol (Cyfle Cyfartal) yn yr Adran Adnoddau Dynol. Gellir gweld Adroddiadau Blynyddol Cydraddoldeb Hiliol blaenorol ar gyfer 2003, 2004 a 2005 ar y wefan uchod. Anfonir yr adroddiad hefyd at Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC)
- (iii) Fel y nodwyd mewn adroddiadau blaenorol, mae **Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000** yn gosod Dyletswyddau Cyffredinol a Phenodol ar PCA i ddileu gwahaniaethu hiliol anghyfreithlon, hyrwyddo cydraddoldeb cyfle a hyrwyddo perthnasau da rhwng pobl o wahanol grwpiau hiliol. Mae'r dyletswyddau hyn yn ymrwmo'r Brifysgol yn gyfreithiol fel corff corfforaethol a hefyd aelodau unigol o'r Cyngor, y staff a'r myfyrwyr. Fel rhan o'i dyletswyddau penodol o dan y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio), mae PCA yn deall yr angen i:
  - weithredu ei Pholisi a'i Chynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol;
  - asesu effaith ei pholisïau (gan gynnwys y Polisi Cydraddoldeb Hiliol) ar fyfyrwyr a staff o grwpiau hiliol gwahanol;
  - monitro'r broses o dderbyn myfyrwyr a'u cynnydd, a recriwtio a chadw staff o wahanol grwpiau hiliol a'u cynnydd gyrfa;
  - cyhoeddi canlyniadau blynyddol asesu a monitro (fel yn yr Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb Hiliol hwn).

**Crynodeb:** *Hwn yw'r pedwerydd Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb Hiliol fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000.*

#### 2. Statws y Polisi a'r Cynllun Gweithredu ac Asesiad Effaith

- (i) Mae Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000 yn gofyn bod PCA (fel corff cyhoeddus) yn asesu effaith ei Pholisi a'i Chynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol er mwyn canfod a yw ei pholisïau a'i gweithdrefnau yn cael effaith wahanol ar wahanol grwpiau ethnig, gyda'r bwriad y bydd hyn yn cynorthwyo i adnabod anghydraddoldebau posibl, yn helpu i osgoi gwahaniaethu, yn cynorthwyo i ddatblygu polisi a chynyddu tryloywder.

- (ii) Mae asesiad effaith cydraddoldeb cyflawn (h.y. dadansoddiad systematig o bolisiau ac arferion i ganfod a oes iddynt effaith wahaniaethol ar grwpiau penodol) o holl bolisiau PCA ar y gweill, yn dilyn argymhelliad gan y Pwyllgor Cyfle Cyfartal ac Amrywioldeb y byddai'n fwy effeithiol a phriodol i ymgymryd ag asesiad o'r holl elfennau cydraddoldeb yn hytrach na hil yn unig. Fodd bynnag byddai hil yn flaenoriaeth ar gyfer yr asesiad. Mae papur yn ymwneud ag Asesiad Effaith ar gyfer yr holl elfennau cydraddoldeb ynghyd â rhai nodiadau canllaw sylfaenol a strategaeth gweithredu wedi cael eu datblygu a chânt eu cyflwyno ar gyfer cymeradwyaeth derfynol ynghyd â'r adroddiad hwn.
- (iii) Adolygwyd a diweddarwyd Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol PCA gan y Pwyllgor Cyfle Cyfartal ac Amrywioldeb ym mis Mai 2006. Mae'r Cynllun Gweithredu yn cynnwys Strategaeth Hyfforddi, Asesiad Effaith Phrif Ffrydio, Strategaeth Ymgynghori a Chyfathrebu, Hyrwyddo Cydraddoldeb Hiliol ac Amrywioldeb, Rhwydweithio, Llywodraethu, Trefniadau Cefnogi a Monitro Aflonyddu Hiliol. Mae'r Cynllun Gweithredu 3 blynedd newydd yn atodedig i'r adroddiad hwn (Atodiad 1) a bydd ar gael ar y wefan Cyfle Cyfartal ac Amrywioldeb, <http://www.aber.ac.uk/cy/equal-opps> neu gan y Rheolwr Adnoddau Dynol (Cyfle Cyfartal) unwaith y bydd wedi'i gyfieithu i'r Gymraeg. Mae'r Polisi Cydraddoldeb Hiliol hefyd yn cael ei adolygu ar hyn o bryd.
- (iv) Mae PCA yn parhau i weithio'n rhagweithiol i hyrwyddo a mewnosod arfer dda mewn perthynas â chydaddoldeb hiliol. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw dystiolaeth i arwyddo y gallai grwpiau hiliol gwahanol gael eu heffeithio'n wahanol gan bolisiau a gweithdrefnau PCA.

**Crynodeb: Dylai'r Cyngor nodi y bydd ymarfer Asesu Effaith cynhwysfawr (sy'n atodedig i'r adroddiad hwn) yn cael ei estyn i gynnwys holl elfennau cydraddoldeb. Hefyd nodi'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol 3 blynedd sydd wedi'i ddiweddarau (Atodiad 1).**

### 3. Mewnosod a Phrif Ffrydio Cydraddoldeb Hiliol

#### Gwefan Cyfle Cyfartal:

- (i) Cafodd gwefan Cyfle Cyfartal PCA ei diweddarau ym mis Mawrth 2006 i gyd-fynd â lansio'r Wefan Adnoddau Dynol <http://www.aber.ac.uk/human-resources> ac fe'i hailenwyd yn wefan 'Cyfle Cyfartal ac Amrywioldeb'.

#### Digwyddiadau Rhwydweithio a Dolenni Cyswllt:

- (ii) Cynhaliwyd y digwyddiadau rhyngweithio cydraddoldeb hiliol canlynol yn ystod 2005-6:

Mehafin 2005 Tachwedd 2005 Mawrth 2006	Rheolwr Adnoddau Dynol (Cyfle Cyfartal) yn cynorthwyo i drefnu a hyrwyddo 3 chyfarfod allanol a drefnwyd gan Heddlu Dyfed Powys i Grwpiau sydd wedi'u Tangynrychioli. Mae hyn yn cynnwys cynrychiolaeth o grwpiau lleiafrifoedd ethnig. Caiff monitro materion yn ymwneud â hil a chrefydd/cred yng Ngheredigion ei drafod yn rheolaidd.
Medi 2005	Rheolwr Adnoddau Dynol (Cyfle Cyfartal) yn bresennol yn Ffair y Glasfyrwyr, gan rwydweithio â grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli a oedd yn bresennol.
Ionawr 2006	Digwyddiad Blwyddyn Newydd Tsieineaidd – dathliadau Blwyddyn Newydd yn cael eu trefnu mewn cydweithrediad

	â'r myfyrwyr Tsieineaidd, Urdd y Myfyrwyr a rhaglen Canolfan y Celfyddydau.
Mawrth 2006	Wythnos Un Byd wedi'i threfnu gan Urdd y Myfyrwyr – Digwyddiad yn dathlu amrywiaeth a gwahaniaeth diwylliannol.
Ebrill 2006	Y 'Fforwm Cymdeithasol Cymru' cyntaf wedi'i drefnu gan Urdd y Myfyrwyr - 4 diwrnod o sgysiau a digwyddiadau rhwydweithio diwylliannol a gwleidyddol ar themâu eang heddwch, cyfiawnder a chynladwyedd.

- (iii) Mae PCA yn parhau i rwydweithio gydag Uned Herio Cydraddoldeb UUK a Phrifysgolion eraill yng Nghymru. Mae'r Rheolwr Adnoddau Dynol (Cyfle Cyfartal) yn aelod o grŵp cyswllt Uned Herio Cydraddoldeb sy'n cynnwys cynrychiolydd o CCAUC a Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Yn fewnol, mae'r Rheolwr Adnoddau Dynol (Cyfle Cyfartal) yn parhau i gysylltu ag Urdd y Myfyrwyr ar faterion cydraddoldeb hiliol.
- (iv) PCA yw partner arweiniol Partneriaeth Ehangu Cyfranogiad Canolbarth a Gorllewin Cymru, sydd yn parhau i gynnwys aelodaeth o gymuned leiafrif ethnig fel un o'i meini prawf ar gyfer mynediad i'w gweithgareddau. Mae hefyd wedi dechrau ar brosiect sydd wedi'i anelu at bobl ifanc o gymunedau Sipsi Romani yn Sir Benfro er mwyn annog cyfranogiad mewn addysg neu hyfforddiant. Bwriad prif weithgaredd y Bartneriaeth, sef Prifysgol Haf Cymru, yw recriwtio 10% o'r cyfranogwyr o blith lleiafrifoedd ethnig. Er mwyn cyflawni hyn, mae'r Bartneriaeth wedi ymdrechu'n daer i ddatblygu perthnasau cryf ag ysgolion a cholegau mewn ardaloedd o Dde Cymru lle mae niferoedd uwch na'r cyfartaledd o ddisgyblion o leiafrifoedd ethnig
- (v) Yn yr un modd, mae Canolfan Ehangu Cyfranogiad a Chynhwysiant Cymdeithasol PCA wedi datblygu cysylltiadau â Pharthau Gweithredu Addysg yng Nghanolbarth Lloegr ac mae'n parhau i dderbyn cyfran uchel o ddisgyblion lleiafrifoedd ethnig o'r ardal hon ar gyfer dyddiau 'Profi Bywyd Prifysgol' PCA.

### **Sefydliad Rhyngwladol:**

- (vi) Mae bywyd addysgiadol a diwylliannol PCA yn cael ei gyfoethogi'n fawr gan bresenoldeb nifer sylweddol o fyfyrwyr o du hwnt i'r DU ac Ewrop. Mae PCA yn gosod blaenoriaeth uchel ar integreiddio'r myfyrwyr hyn i'w hadrannau, y brifysgol a'r dref, drwy, er enghraifft y Diwrnod Croesawu i fyfyrwyr rhyngwladol a'r cynllun Mentora sy'nparu myfyriwr newydd gyda myfyriwr israddedig o'r ail neu'r drydedd flwyddyn am ychydig o wythnosau ar ôl iddynt gyrraedd Aberystwyth am y tro cyntaf. Mae Cynghorydd Rhyngwladol yn cynnig cyngor a chefnogaeth cyffredinol a, lle bo angen, mae Canolfan Iaith a Dysgu PCA yn cynnig hyfforddiant a chefnogaeth ieithyddol. Mae'r Brifysgol hefyd yn sicrhau bod adnoddau ar gael er mwyn cwrdd â gofynion arbenigol crefyddau gwahanol.

### **Hyfforddiant:**

- (vii) Mae'r Swyddfa Datblygu Staff wedi parhau i drefnu hyfforddiant Cyfle Cyfartal mewn Sgiliau Recriwtio / Dethol a Chyfweld (sy'n cynnwys hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywioldeb) fel amod ar gyfer bod yn gymwys i wasanaethu fel aelod o Banel Dethol ar gyfer penodiadau. Rhwng mis Mehefin 2005 a mis Gorffennaf 2006 mae dros 80 o staff wedi cael eu hyfforddi o'i gymharu â 50 yn y flwyddyn flaenorol. Mae'r Swyddfa Datblygu Staff yn dosbarthu datganiad Cyfle Cyfartal (gyda dolenni cyswllt i'r wefan Cyfle Cyfartal ac Amrywioldeb) i'w holl hyfforddwyr allanol a staff sy'n ymgymryd â chymwysterau NVQ ac *Institute for Leadership and Management*.

- (viii) Derbyniodd y Pwyllgor Staffio argymhelliad gan y Pwyllgor Cyfle Cyfartal ac Amrywioldeb y dylai staff ddiweddarau eu hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywioldeb bob tair blynedd er mwyn parhau i wasanaethu ar bwyllgorau dethol.
- (ix) Mae sesiynau hyfforddi Cyfle Cyfartal ac Amrywioldeb yn parhau i gael eu cyflwyno i athrawon TAR cynradd ac uwchradd ac mae hyfforddiant yn cael ei gynig os daw cais amdano, er enghraifft Gwasanaethau Gwybodaeth, Cyngori Gyrfaoedd a lleoliadau Diwydiannol. Bydd hyfforddiant yn cael ei gyflwyno i Swyddogion Sabothol yr Urdd a Rheolwyr yr Urdd yn ystod yr haf.
- (x) Mae'r strategaeth ar gyfer cyflwyno hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywioldeb gorfodol i'r holl staff wedi cymryd mwy o amser i'w chyflwyno nag y disgwyliwyd yn wreiddiol, yn rhannol oherwydd cost cyflwyno rhaglen ddwyieithog gyflawn. Mae PCA bellach yn gweithio gyda SAU arall a chyrrff yn y sector cyhoeddus yn lleol i drwyddedu pecyn meddalwedd priodol.
- (xi) Mae'r Rheolwr Adnoddau Dynol (Cyfle Cyfartal) yn parhau i gefnogi'r Rhwydwaith Aflonyddu Personol sy'n cynnig cynhaliadau gyfrinachol a gwybodaeth am wahaniaethu (gan gynnwys gwahaniaethu ar sail hil) i staff a myfyrwyr.

#### **Adolygu, datblygu a monitro Cyfle Cyfartal**

- (xii) Mae'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal ac Amrywioldeb (y Pwyllgor Cyfle Cyfartal yn flaenorol) wedi cyfarfod dair gwaith yn ystod y flwyddyn. Mae'r Pwyllgor hwn, sy'n gydbwyllgor y Cyngor a'r Senedd, yn parhau i gydlynu strategaeth cyfle cyfartal ac amrywioldeb PCA ynghyd â ffurfio polisi, monitro ei weithrediad, cyngori ar ddatblygiadau cyfreithiol a hyrwyddo a dosbarthu arfer orau.

**Crynodeb: Mae mewnosod a phrif ffrydio cydraddoldeb hiliol yn cael eu cynnal drwy ddiweddarau'r wefan Cyfle Cyfartal ac Amrywioldeb, rhwydweithio allanol a hyfforddiant.**

#### **4. Monitro Ethnig**

- (i) Fel dyletswydd benodol o dan y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000, mae'n ofynnol i PCA ymgymryd â monitro derbyniadau a chynnydd myfyrwyr a recriwtio a hyfforddi staff yn flynyddol yn ôl grwpiau hiliol. Caiff data ei ddadansoddi i sefydlu a oes unrhyw grwpiau ethnig wedi'u tangynrychioli ac a oes unrhyw rwystrau sefydliadol y gellid eu dileu.
- (ii) Ymhlith y ffynonellau gwybodaeth mewnol ar gyfer adroddiad 2005-6 mae Gwasanaethau Gwybodaeth Rheoli, yr Adran Adnoddau Dynol, Swyddfeydd Datblygu Staff, Derbyniadau a Recriwtio, Swyddfa Academiaidd, Rhwydwaith Aflonyddu, Urdd y Myfyrwyr a Datblygu a Materion Allanol. Ymhlith y ffynonellau allanol mae Cyfrifiad Cenedlaethol 2001, Awdurdodau Lleol, Heddlu Dyfed-Powys, HESA ac UCAS.
- (iii) Mae'r adran AD yn ymgymryd ag ymarfer glanhau data electronig eang. Mae hyn yn cynnwys diweddarau meysydd data ar ethnigrwydd a chenedligrwydd lle mae wedi'i ddarparu.
- (iv) Fel yn achos adroddiadau blaenorol, mae data wedi'i goladu ar gyfansoddiad hiliol y staff a gyflogir yn y Brifysgol a'n corff o fyfyrwyr er mwyn sefydlu man cychwyn.

- (v) **Monitro myfyrwyr:** Mae'r data ar gyfer 2004-5 yn dangos cyfanswm poblogaeth myfyrwyr cartref, UE a rhyngwladol o 9,263, gyda 453 o fyfyrwyr israddedig a 352 o fyfyrwyr uwchraddedig wedi'u cofnodi fel rhai sy'n dod o gefndiroedd 'heb fod yn wyn'. Mae hyn yn gynydd, o 7.69% i 8.69% o gorff y myfyrwyr.
- (vi) Mae'r gyfradd gynnig ar gyfer y sefydliad yn gyffredin ar draws yr holl grwpiau ethnig. Nid oes tystiolaeth bod ymgeiswyr nad ydynt yn wyn yn cael eu gwrthod ar raddfa anghymesur.
- (vii) **Monitro staff:** Yn 2005, cofnodwyd 50 o aelodau o staff allan o gyfanswm o 1,881 fel rhai nad oedd o gefndir gwyn / cefndir cymysg sy'n golygu bod 3.5% o'r staff o leiafrifoedd ethnig. Ar gyfer 2006, mae gan PCA gyfanswm o 1969 gyda 51 aelod o staff wedi'u cofnodi fel rhai nad ydynt o gefndir gwyn / cefndir cymysg. Mae hwn yn ostyngiad i 2.5% o aelodau o staff o gefndiroedd ethnig. Fodd bynnag os yw 'lleiafrifoedd ethnig eraill' yn cael eu hystyried ar gyfer y ddwy flynedd (h.y. 16 aelod ychwanegol o staff wedi'u cofnodi yn 2005 a 25 wedi'u cofnodi yn 2006) yna mae'r ffigur yn codi ychydig gyda 3.51% ar gyfer 2005 a 3.86% ar gyfer 2006. Mae'n debyg bod yr anghysondeb hwn wedi codi yn sgil diweddarau meysydd ethnigrwydd a chenedligrwydd ar ein cronfa ddata Cyborg.
- (viii) Ar hyn o bryd mae AD yn adolygu ei system gadw cofnodion ar gyfer ceisiadau, rhestrau byr, rhesymau am ymadael a chynnydd gyrfa.
- (ix) Mae staff o leiafrifoedd ethnig yn parhau i fod wedi'u dosbarthu'n gyfartal ar draws system raddio PCA ac mae cynifer o staff o leiafrifoedd ethnig ar lefelau hŷn ag sydd ar lefelau llafurol/atodol.
- (x) **Cymaryddion demograffig:** mae cyfrifiad 2001 yn cofnodi 1.4% o boblogaeth Ceredigion fel rhai nad ydynt yn wyn. Mae hyn yn cymharu â 2.1% ar gyfer Cymru a 7.9% ar gyfer y DU yn gyfan. Mae'r rhan fwyaf o'r bobl o leiafrifoedd ethnig yng Ngheredigion wedi'u lleoli o fewn Aberystwyth ei hun, oherwydd lleoliad y Brifysgol a'r ysbyty.

**Crynodeb:** *Mae cymaryddion staff, myfyrwyr a demograffig yn dangos cynnydd mewn staff a myfyrwyr o leiafrifoedd ethnig yn PCA.*

## 5. Casgliadau

- (i) Mae PCA wedi ymrwymo i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon ar sail hil, gan hyrwyddo cydraddoldeb cyfle a hybu perthnasau da rhwng pobl o wahanol grwpiau hiliol fel y pennir o dan **Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000 (Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio))**.
- (ii) Yn 2006, mae Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol tair blynedd (2006-2009) newydd wedi'i ddatblygu er mwyn cefnogi prif ffrydio parhaus a gweithredu agenda cydraddoldeb hiliol PCA yn rhagweithiol.
- (iii) Mae asesiad effaith PCA ar gyfer cydraddoldeb hiliol yn cael ei estyn i gynnwys yr holl elfennau cydraddoldeb eraill. Mae papur a chanllaw yn cael eu paratoi ar hyn o bryd.
- (iv) Mae strategaeth wedi'i datblygu er mwyn diweddarau hyfforddiant aelodau o baneli dethol yn ystod y flwyddyn sydd i ddod. Gallai'r hyfforddiant hwn ddatblygu i fod yn elfen gychwynnol o'r rhaglen strategaeth hyfforddi Cyfle Cyfartal ac Amrywioldeb ofodol.

- (v) Mae rhagor o waith mireinio mecanweithiau monitro ar waith, gan gynnwys glanhau data yn y gronfa ddata Adnoddau Dynol Cyborg.
- (vi) Mae PCA yn parhau i weithio'n rhagweithiol gyda phartneriaid a chyrff allanol i gydweithio a rhannu arfer da o ran materion cydraddoldeb hiliol.